GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr

# Ebrill 2023

**Cyflwyniad**
Mae hyfforddiant yn rhan annatod o ddatblygiad pob Cynghorydd a chyflwynir hyn trwy raglen hyfforddi flynyddol a hwylusir gan Dîm y Gwasanaethau Democrataidd.

**Adnabod Anghenion Hyfforddi**
Cyflwynir Rhaglen Hyfforddiant Cynghorwyr i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd o leiaf 3 mis cyn etholiad, sy'n cynnwys manylion y rhaglen gynefino ac amserlen ar gyfer darparu hyfforddiant i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor.

**Hyfforddiant, Datblygiad a Chymorth Parhaus i Aelodau**
Mae rôl Cynghorydd yn datblygu'n gyson oherwydd:
- newidiadau i ddeddfwriaeth;
- newidiadau i'r cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol y mae cynghorwyr yn ymgymryd â'u rolau ynddo;
- datblygiadau newydd yn y cyfryngau cymdeithasol;
- newid strwythurol yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trefnu ac
- y ffordd y mae cynghorau yn rhyngweithio ag unigolion a chymunedau.

Felly bydd y rhaglen hyfforddi a datblygu yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn aml gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac anghenion aelodau a nodir drwy eu hadolygiadau blynyddol.

**Hyfforddiant a chymorth a roddir**
- Rhaglen gynefino ar ddechrau tymor pob etholiad;
- Hyfforddiant a roddir gan Swyddogion arbenigol mewnol;
- Hyfforddiant a roddir gan ddarparwyr allanol lle bo angen;
- Gweithdai (gan ddarparwyr gwasanaethau mewnol a sefydliadau allanol);
- Deunyddiau cymorth ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cyngor a chymorth hawdd eu cael gan Swyddogion Arweiniol Corfforaethol;
- Cymorth uniongyrchol gan staff Gwasanaethau Democrataidd sy'n delio â materion penodol megis cyfarfodydd, adroddiadau ac agendâu;
- Cymorth uniongyrchol gan TGCh.

**Cymorth a roddir gan Grwpiau Gwleidyddol**
Gall Grwpiau Gwleidyddol roi trefniadau ar waith ar gyfer mentora cymheiriaid a rhoi cymorth iddynt, er enghraifft, 'cyfeillio' cynghorwyr newydd eu hethol gyda chydweithwyr sy'n dychwelyd i'w swyddi.  Mae hon yn elfen bwysig o hyfforddiant a chymorth i lawer o aelodau.  Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol hefyd yn rhoi cymorth i bob Cynghorydd gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gysylltiedig â grŵp gwleidyddol,

**Darparu hyfforddiant**

Mae sawl dull o ddarparu cyrsiau hyfforddi.  Bydd y mwyafrif yn cael eu cynnal o bell, fodd bynnag, lle bo amgylchiadau'n galw am hynny, bydd dulliau eraill yn cael eu hystyried gan gynnwys:

- Hyfforddiant wyneb yn wyneb
- Darparu'n hybrid
- E-ddysgu
- Profiad Ymarferol
- Cymorth un-i-un

**Y Rhaglen Gynefino**

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod awdurdodau lleol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer yr hyn sy'n hanfodol i aelod awdurdod lleol gyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae rhestr o bynciau ar gyfer rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer datblygu aelodau a nodir yn Arweiniad Llywodraeth Cymru ynghlwm wrth Atodiad A. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr

**Adolygiad Blynyddol**

Gofynnir i aelodau gwblhau hunanwerthusiad o'u ffurflen dysgu a datblygu sy'n adlewyrchu Fframwaith Cymwyseddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y'i mabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion.

Ar ôl cael yr asesiad, os bydd aelod yn penderfynu cael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi a datblygu, trefnir cyfweliad â pherson â chymwysterau addas i roi gwybod am anghenion hyfforddi a datblygu aelod.

Bydd canlyniad yr adolygiad yn ffurfio cynllun y cytunwyd arno sy'n nodi anghenion hyfforddi a datblygu'r unigolyn.

Yn ogystal â hyn, bydd y meysydd a nodwyd gan Aelodau mewn ymateb i ffurflenni'r hunanwerthusiad hefyd yn cael eu hystyried mewn perthynas â rhoi sesiynau hyfforddi ychwanegol, a hyfforddiant diweddaru i'r holl Aelodau.

**Arweinydd Gweithredol yr Awdurdod Lleol**

Nid yw adran 7 y Mesur yn berthnasol i arweinydd gweithredol y Cyngor, fodd bynnag nid yw hyn yn eithrio'r Arweinydd rhag cael hyfforddiant, datblygiad neu adolygiad blynyddol os yw'n dymuno gwneud hynny.

**Atodiad A:**
Pynciau ar gyfer rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer datblygu aelodau a nodir yn yr Arweiniad Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

- Cynefino - Cyflwyniad i waith awdurdod lleol a'i berthynas â chyrff allweddol a rôl y cyrff hynny. Dylai cynghorau gynllunio rhaglen gynefino gynhwysfawr ar gyfer cynghorwyr newydd i'w chyflwyno yn fuan ar ôl etholiadau cyffredin a hefyd ar gyfer aelodau newydd a etholir mewn isetholiad;
- Hyfforddiant ar rôl a swyddogaethau'r weithrediaeth, y cyngor a'i swyddogion;
- Trosolwg o gyfansoddiad y cyngor, gan gynnwys gweithrediad cyfarfodydd, sut i godi cwestiynau gyda'r arweinydd a'r weithrediaeth, mynediad at wybodaeth a chymorth ymchwil;
- Hyfforddiant i gadeiryddion pwyllgorau gan gynnwys sgiliau cadeirio effeithiol:
- Hyfforddiant ar rolau penodol y gall aelodau eu cyflawni megis llywodraethwyr neu gynrychiolwyr ar fyrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub neu barciau cenedlaethol gan gynnwys briff byr ar ddiben y rôl a chyfrifoldebau'r aelod o ran hysbysu'r cyngor am ddatblygiadau ar y corff y mae'n cynrychioli'r cyngor arno, lefel y penderfyniadau a ddirprwyir iddynt a sut y gallant gael cymorth i'w cefnogi yn y rôl;
- Hyfforddiant ar rôl y cynghorydd fel aelod lleol, dirprwyo swyddogaethau i aelodau wardiau a galwadau cynghorwyr am weithredu;
- Hyfforddiant ar ymgysylltu â'r cyhoedd, strategaeth y cyngor i annog cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau'n lleol a'r rôl y gall aelodau ei chwarae wrth ymgysylltu â chymunedau;
- Hyfforddiant penodol i gynghorwyr sy'n cyflawni rolau rheoleiddiol neu led-farnwrol penodol (hyfforddiant i gynghorwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau cynllunio neu drwyddedu, er enghraifft);
- Hyfforddiant penodol i gynghorwyr sy'n cyflawni rolau sy'n ymwneud â gweithrediadau'r cyngor. Gallai aelodau'r Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, Gwasanaethau Democrataidd a Safonau gael eu gweld fel rhai ag angen penodol;
- Hyfforddiant ar weithrediad trosolwg a chraffu a'i berthynas â gweithrediaeth y cyngor;
- Hyfforddiant ar hawliau a chyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn fwy cyffredinol y Model Cymdeithasol o Anabledd;
- Hyfforddiant ar TGCh, gan gynnwys sut i gymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-leoliad a sut y gall defnyddio TGCh gefnogi gwaith y cynghorydd;
- Hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol a'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu gwell rhwng cynghorwyr a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Hefyd y risg y bydd cynghorwyr yn cael eu herlid neu eu

haflonyddu gan wrthwynebwyr neu ymgyrchwyr yn mynd y tu hwnt i ffiniau dadl resymol;

- Hyfforddiant ar les a diogelwch, gan gynnwys ffyrdd o gadw'n ddiogel wrth gyflawni eu rôl;
- Dylai cynefino cynghorwyr gynnwys hyfforddiant ar y safonau disgwyliedig o dan God Ymddygiad eu hawdurdod, gan bwysleisio'r problemau sy'n codi o ganlyniad i weithredu'r Cod yng nghyd-destun cyfryngau cymdeithasol. Dylai hefyd gynnwys rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymdrin â chwynion ynghylch achosion o dorri'r Cod. Dylai diweddaru'r hyfforddiant hwnnw hefyd fod yn rhan o'r rhaglen barhaus o ddatblygu aelodau;
- Hyfforddiant ar gyfrifoldebau rhianta corfforaethol cynghorwyr;
- Sesiynau briffio a diweddariadau rheolaidd ar newidiadau yn y gyfraith, polisi a materion eraill sy'n effeithio ar rôl yr aelod etholedig megis yr economi;
- Hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyfrifoldebau'r cyngor o ran llesiant cenedlaethau'r dyfodol;
- Hyfforddiant ar gadw'n ddiogel wrth weithio ar eich pen eich hun, gan gynnwys wrth ymweld ag eraill.